

cael ei rhyddhau o gwmpas y tŷ, weithiau, ac yn creu llanast! Mae yna gath, hefyd, a'r berthynas rhwng y ddau anifail yn beryglus iawn, ar brydiau, a Mair yn gorfod setlo'r anghydfod. Mae Nanw'n chwarae rhan arwyddocaol iawn ym mywyd Mair.


Ceisia Mair gynnal bywoliaeth drwy werthu gemau yn y farchnad leol, a hynt a helynt ei bywyd dyddiol hi a'i chydfasnachwyr a gawn ym mhob pennod. Mo yw ffrind pennaf Mair, a gwelwn sut mae'r cyfeillgarwch yn arwain at ddatrys dirgelwch mawr ym mywyd Mair.

Nid yw'n nofel hawdd i'w darllen. 'Does dim digwyddiadau cyffrous ynddi, ond mae'r darlennydd yn cael ei ysgogi i ddal ymlaen wrth i'r awdures daflu mân friwsion am fywydau'r cymeriadau atom o bryd i'w gilydd; rhaid dal ati hyd y diwedd i gael gwybod y cwbl, a dehongli rhai agweddau dyrs o'r nofel; 'roeddwn i mor falch fy mod wedi'i wneud, yn y diwedd.

Rhyfeddwn at y disgrifiadau manwl o bethau bob dydd yn y llyfr - mae'r mynegiant yn llifo, a thafodiaeth Ceredigion yn sicrhau nofel arbennig. Darllenwch hi.

Valentine:
Cofiant i Lewis Valentine,
Arwel Vittle, Y Lolfa, 416 tud. £14.95

Er bod deg a thrigain a mwy o flynyddoedd wedi mynd heibio er llosgi siediau'r ysgol fomio ym Mhenyberth mae enwau'r tri arwr a gyflawnodd y weithred yn amlwg yng nghof y genedl o hyd. A hynny'n bennaf oherwydd cyhoeddi cofiannau swmpus i ddau ohonynt yn ystod 2006, sef *Un bywyd o blith nifer: cofiant Saunders Lewis* gan Dr T.Robin Chapman a'r gyfrol a drafodir yma, *Valentine: cofiant i Lewis Valentine* gan Arwel Vittle. Yr unig un o'r 'tri sgrwbyn', chwedl D.J Williams unwaith, na chafodd gofiant hyd yn hyn yw D.J. ei hun er fod cyfrol ddifrifol o



cofiant i Lewis Valentine

lythyrau, dan y teitl *Annwyl D.J. : llythyrau D.J. Saunders a Kate* newydd ymddangos yr haf hwn.

Yn y cofiant difyr a darllenadwy hwn mae Arwel Vittle yn rhoi inni ddarlun hynod gynhwysfawr a chytbwys o yrfa Lewis Valentine o ddyddiau ei blentyndod ym mhentref Llanddulas, a oedd 'bron yn uniaith Gymraeg... ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg', hyd at ei farwolaeth, ac yntau o fewn tri mis i fod yn 93 oed yn 1986. Fel myfyriwr yng Ngholeg Prifysgol Bangor cafodd yrfa academaidd ddisglair ac ystyriai Athro Ieithoedd Semitig y Coleg 'fod Valentine yn un o'r myfyrywyr galluocaf a mwyaf gwreiddiol iddo eu dysgu mewn unrhyw goleg'. Gallai'n hawdd fod wedi dilyn gyrfa fel Athro Prifysgol ei hun ond dewisodd yn hytrach fynd yn weinidog yr Efengyl gyda'r Bedyddwyr gan wasanaethu am bron i hanner can mlynedd yn y Tabernacl, Llandudno a Phenel, Rhosllannerchrugog. Roedd yn un o arloeswyr Plaid Cymru, hefyd, gan wasanaethu fel ei Llywydd cyntaf pan sefydlwyd hi yn 1925, ac ef oedd ei hymgeisydd seneddol cyntaf yn 1929. Parhaodd yn genedlaetholwr pybyr a digymrodedd hyd y diwedd ac iddo ef roedd cwlwm annatod rhwng crefydd a chenedligrwydd. Dadansoddir ei yrfa'n fanwl ofalus gan ei gofiannydd gan ddwyn i mewn lawer o dystiolaeth gwbl newydd, a hynny mewn dull deheuig iawn. Cawn ein hatgoffa hefyd am gyfraniadau llenyddol sylweddol Valentine a'r gwasanaeth enfawr a roes i'w enwad fel golygydd *Y Deyrnas* (1923-36) a *Seren Gomer* (1951-75).


Ar ddiwedd y cofiant ei hun mae tri atodiad diddorol, a'r cyntaf yn cynnwys 'atgofion Samuel Valentine' (tad Lewis) a anwyd yn 1854 ac a aeth i weithio mewn pwll glo yn wyth oed "gan weithio yn y pwll o chwech o'r gloch y bore tan chwech o'r gloch yr hwyr". Yn yr ail atodiad ceir erthygl o waith Lewis Valentine a ymddangosodd gyntaf yn *Seren Gomer* (Mai 1936), 'Cymru fel y carem iddi fod' a'i anerchiad fel Llywydd y dydd yn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno (1963), 'Gafael yr Eisteddfod'. Yn y trydydd atodiad ceir nifer o gerddi, emynau a chyfieithiadau o'i eiddo sy'n cynnwys 'Emyn y terfyn'. Diddorol yw cymharu hon â 'Gweddi'r terfyn', cerdd enwocach ei gyfaill Saunders Lewis. Mae'r atodiadau hyn yn ychwanegiadau pwysig at gyhoeddiadau eraill o eiddo Lewis Valentine, yn arbennig *Dyddiadur milwr a gweithiau eraill* (golygydd John Emyr), a ymddangosodd yn 1988. Ceir hefyd lyfryddiaeth ddedol hynod ddefnyddiol ar ddiwedd y gyfrol, *Valentine*, er mod i'n synnu i'r eitemau gael eu rhestru yn

AR WERTH
Cylchgrawn Y Fflam
CALAN MAI 1947-IONAWR 1949
Pris £2 yr un
Cludiant yn ychwanegol
Cysyllter ar 01286 830505

ôl eu teitlau yn hytrach nag yn ôl eu hawduron! Ac o dan y llun olaf ond un yn y gyfrol fe ddylid nodi mai yn 1969 y cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol y Fflint ac nid 1970.

Rheinallt Llwyd

Hen Longau Sir Gaernarfon,
David Thomas, Gwasg Carreg Gwalch,
387 tud., pris £12



Pan gyhoeddodd Cymdeithas Hanes Sir Gaernarfon y gyfrol Hen Longau Sir Gaernarfon yn wreiddiol yn 1952, cyfeiriwyd ati yn *Y Cymro* fel 'campwaith David Thomas'. Pery'r gosodiad yr un mor wir heddiw.

Heb unrhyw amheuaeth mae Hen Longau Sir Gaernarfon yn un o glasuron ein hanes morwrol. Fe'i cyhoeddwyd mewn cyfnod pan nad oedd cyhoeddi ar hanes Cymru yn y Gymraeg na'r Saesneg yn ffasiynol, a phrin iawn oedd unrhyw gyhoeddiadau ar hanes morwrol Cymru. Mewn sawl ystyr, mae'n llyfr arloesol - yn astudiaeth ranbarthol bwysig, ond hefyd yn agoriad i sawl agwedd ar hanes morwrol ein Cenedl, gan gynnwys hanes smyglwyr, pysgotwyr, porthladdoedd, llongau a llongwyr. Mewn un gyfrol llwyddodd David Thomas i ddangos fod profiadau morwrol y Cymry yn ganolog i ddealltwriaeth o'n gorffennol fel Cenedl.

I'r rhai sy'n dilyn achau, ceir pennod ar longwyr, gwybodaeth drylwyr am rai o longau sir Gaernarfon cyn y ddeunawfed ganrif a'r diwydrwydd a berthyn i'r fasnach.

Cefais fodd i fyw yn darllen hanes diwydiant morwrol Sir Gaernarfon ar hyd y canrifoedd ac mae'n sicr yn ffynnon o wybodaeth i unrhyw un sydd am wybod mwy am y cyfnod cyffrous yma.

Mwynheais ei darllen. Prynwch chithau hi.